Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cylch Meithrin Crymych**

**Y Caban**
**Ysgol Y Frenni**
**Crymych**
**SA41 3QH**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

17/05/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âCylch Meithrin Crymych

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Crymych |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf ers cofrestru 13.08.19 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Good** |
| **Yr Amgylchedd** | **Good** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Good** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae plant yn hapus ac yn cyfathrebu yn hyderus gyda'u cyfoedion a staff gofal ac yn datblygu perthnasau cryf. Mae plant yn annibynnol ac yn cael dewisiadau a chyfleoedd i mynegi barn wrth iddynt gyfrannu tuag at y broses cynllunio a syniadau chwarae.

Mae staff gofal yn brofiadol ac yn deall a dilyn polisïau a gweithdrefnau i hybu lles, diogelwch a ffordd o fyw iach. Mae staff gofal yn annog plant i fynegi eu hunain ac yn rhyngweithio â hwy mewn modd positif. Maent yn cynllunio yn ofalus er mwyn cwrdd â gofynion a diddordebau'r plant.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn gosod canllawiau clir er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig ystod eang o adnoddau da i gwrdd â gofynion a chamau datblygiad unigol plant.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a rheoli yn dda iawn. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cwrdd â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaethau cryf gyda rhieni a gofalwyr.

| Llesiant | Good |
| --- | --- |

Mae plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, penderfyniadau a mynegi barn. Maent yn cyfathrebu yn hyderus gyda staff gofal a’u cyfoedion, ac mae eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Mae plant yn cyfrannu at y broses cynllunio ac at syniadau ar gyfer gweithgareddau’r tymor, er enghraifft dewis teithiau i’r fferm ac i’r traeth. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi, gan sicrhau eu llesiant unigol.

Mae plant yn hapus ac wedi ffurfio perthynas dda gyda staff gofal a’u cyfoedion. Maent yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae plant yn teimlo’n ddiogel a hapus ac yn hoffi’r rhyddid i ddewis aros tu fewn neu symud i’r ardal allanol.  Yn yr un modd, mae plant hefyd yn annibynnol wrth iddynt benderfynu pryd i fynd i’r tŷ bach.

Mae plant yn rhyngweithio yn hyderus ac agored ac yn cydweithio a chymdeithasu mewn modd hawddgar. Mae rhan fwyaf o blant yn deall sut i cymryd tro, aros a rhannu.  Mae’r rhyngweithio rhwng y plant a’r staff gofal yn dangos bod plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da.

Mae plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn frwdfrydig. Maent yn dangos diddordeb a chyffro ac yn mwynhau cymryd rhan a chwblhau tasgau a gweld y canlyniadau. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored, ac yn cael rhyddid i ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad, tu fewn a thu allan, i gwblhau jig-sos, i beintio, ac i adeiladu.

Mae plant yn cael cefnogaeth i feddwl am yr hyn maent yn ei wneud ac yn cael profiadau da o gwestiynau agored a chaeedig syml er enghraifft, wrth iddynt drafod y tywydd, dywedodd plentyn, ‘fin credu bod yr haul yn treial dod mas’.

Mae plant yn cael cefnogaeth i ymestyn eu gallu i feddwl, datrys problemau a chwestiynu sydd yn seiliedig ar ddeilliannau dysgu a gynllunnir. Dywedodd plant i ni am y broses o fwyta iogwrt, golchi potiau a defnyddio rhain eto i blannu blodau.  Mae plant yn cael cyfleoedd da a chyson i ddatblygu sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol ac yn gallu dilyn eu diddordebau yn llwyddiannus.

| Gofal a Datblygiad | Good |
|---|---|

Mae staff gofal yn brofiadol ac yn deall polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn gweithredu arferion glanhau a hylendid cadarn. Ar ddiwrnod yr ymweliad roedd cŵn bach yn galw mewn ar ddechrau'r sesiwn. Roedd y plant yn gyffrous iawn i gael y cyfle i drafod a gweld cŵn bach ac roedd staff gofal yn atgyfnerthu'r bwysigrwydd i olchi dwylo yn gyson ac yn dilyn camau clir i sicrhau glendid y plant a'r lleoliad yn dilyn yr ymweliad.

Cafwyd byrbryd iachus gyda'r plant yn mwynhau bwyta, trafod a chymdeithasu wrth y bwrdd. Ni wisgai'r staff gofal ffedogau na menig wrth iddynt cynnig y bwyd i'r plant ond mae'r mesur yma wedi ei chyflwyno oddi ar yr ymweliad. Mae staff gofal yn nodi risgiau ac yn mynd ati i'w rheoli yn gyson.  Maent yn deall gweithdrefnau diogelu ac yn hyderus wrth esbonio trefniadau'r lleoliad.

Mae staff gofal yn ymateb yn gyson ac yn gwrando ar a pharchu barn y plant. Maent yn rhyngweithio yn dda iawn ac yn dangos anogaeth, cynhesrwydd a charedigrwydd yn ogystal â bod yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.  Mae gan staff gofal ddealltwriaeth gyfoethog o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau plant yn glir.

Mae staff gofal yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu sydd yn addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant yn eu gofal.  Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn gyson.  Maent yn sicrhau bod plant yn rhan o'r broses cynllunio ac yn ymwybodol o beth i gynllunio ar gyfer cynnydd pellach. Maent yn cynnig gofal a chyfleoedd addas ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol ac yn darparu ar eu cyfer drwy gydweithio ac asiantaethau allanol i gefnogi plant a theuluoedd yn bellach. Gwelwyd enghreifftiau da o gyfathrebu effeithiol rhwng staff gofal a rhieni/gofalwyr wrth i ofynion unigol plant gael eu hystyried a'u parchu.

## Yr Amgylchedd **Good**

Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd sydd yn lân, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r safle yn cynnig lefel da iawn o ddiogelwch lle mae plant yn cael y rhyddid i symud yn annibynnol o amgylch y gwagle mewnol, yn ogystal a'r ardal allanol a'r ardal tŷ bach. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau perygl tân mewn lle ac yn cael eu dilyn a'u hadolygu yn rheolaidd, yn ogystal â sicrhau bod darpariaeth ac adnoddau, sydd yn cefnogi'r asesiadau, mewn lle. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod cymarebau staff gofal i blant yn gywir a'u bod yn goruchwylio plant yn dda iawn. Maent yn atgyfnerthu risgiau posib ac yn atgoffa plant i fod yn ymwybodol o sut maent yn defnyddio'r lleoliad. Er nad oedd y cofrestr yn cadw cofnod amseroedd cyrraedd a gadael plant na staff gofal, roedd arweinwyr y gwasanaeth wedi cyflwyno'r gweithdrefn yma yn syth, yn dilyn yr ymweliad.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y safle mewnol a'r ardal allanol yn ddiogel, yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardaloedd tu fewn ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth i'r adnoddau a'r darpariaeth fod ar gael iddynt ac o fewn cyrraedd bob plentyn. Mae'r amgylchedd hefyd yn cynnig ardaloedd i storio gwaith papur yn gyfrinachol, i baratoi byrbrydau yn addas ac i gynnal trafodaeth cyfrinachol gyda rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn darparu adnoddau da iawn er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant. Mae adnoddau eang yn yr ardaloedd chwarae tu fewn wedi eu gosod allan mewn modd sydd yn caniatáu i bob plentyn weld a chyffwrdd yn rhwydd, ac yn hybu defnydd naturiol yn ogystal ac adnoddau sydd wedi eu hailgylchu. Mae ardal chwarae awyr agored tu ôl i'r lleoliad yn cynnig darpariaeth naturiol o safon sydd yn rhoi cyfleoedd diddorol ac eang i blant i archwilio mewn modd diogel a rhydd. Mae'r safle yn cynnig ardaloedd ychwanegol, tu fewn a thu allan, sydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i blant cael rhyddid ac annibyniaeth pellach mewn ardaloedd diogel, er mwyn ymestyn ar brofiadau a chyfleoedd chwarae a dysgu y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Good

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth weledigaeth glir ac maent yn ei rhannu gyda'r staff gofal, rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth drwy ddarparu polisïau clir a datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir.

Ar y cyfan, mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol a bron yn cwrdd â rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, er cafwyd y materion yma sylw ar unwaith, yn dilyn yr ymweliad. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn cynnig esiamplau clir ac effeithiol o arfer gorau cyfredol sydd yn berthnasol i'r plant yn eu gofal. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg ar bob lefel ac yn sicrhau diwylliant Cymreig cryf i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn dangos nodau cadarn ar gyfer datblygiad pellach ac mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu'n barhaol yn glir a phwrpasol.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn cynnig tystiolaeth dda o gysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Fe welwyd rhieni  a phobl proffesiynol yn ymweld â'r lleoliad ac roedd y bartneriaeth yn gryf ac yn gynnes. Ar ddiwrnod yr ymweliad, fe welwyd staff gofal yn cynnig amser i siarad a throsglwyddo gwybodaeth i rhieni wrth iddynt dderbyn y plant ac ar ddiwedd y sesiwn. Dywedodd rhieni eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a bod eu plant yn mwynhau mynychu.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1 - Sicrhau bod AGC yn cael gwybod pryd mae'r lleoliad ar gau neu ar deithiau.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/07/2022